Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2170A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 14

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio 2020 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r cyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Gwnaed y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. O ystyried ei effaith, ail-luniais fy rhaglenni gwaith arfaethedig drwy ystyried y ffordd orau o sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Ystyriais effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Ataliwyd yr holl waith archwilio ar safleoedd ond fe wnaethom ni barhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan oedd hynny'n bosibl, trwy ddefnyddio technoleg. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar gyflawni rhywfaint o fy ngwaith archwilio arfaethedig, ond mae hefyd wedi ysgogi newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Nid oedd cyflawni fy archwiliad o'r cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom y gwaith, ond hefyd o ran ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant o ran cyflawni'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff i a swyddogion y Bwrdd Iechyd, er mwyn croesawu a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion niferus a gododd.

5 Ar ddechrau'r pandemig, fe wnes i atal cyhoeddiad rhai adroddiadau archwilio perfformiad a oedd bron wedi eu cwblhau, gan adlewyrchu capasiti cyrff a archwiliwyd i gefnogi'r gwaith maes a oedd yn weddill ac er mwyn cyfrannu at glirio allbynnau archwilio drafft. Rwyf hefyd wedi addasu pwyslais a dull rhai adolygiadau arfaethedig eraill er mwyn sicrhau eu perthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng. Mae ffrydiau gwaith newydd wedi eu cyflwyno, megis fy adolygiad o'r rhaglen Profi,

Olrhain a Diogelu, ac mae fy nhimau archwilio lleol wedi cyfrannu at fy ngwaith dysgu COVID-19 ehangach.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith arfaethedig sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Mae **Atodiad 2** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amcangyfrif o ffi yr archwiliad a bennais yn fy Nghynllun Archwilio 2020, a phryd byddaf yn disgwyl gallu cadarnhau'r ffi wirioneddol am y flwyddyn.

8 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2020 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Bydd fy nhîm archwilio yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 9 Chwefror 2021. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad hefyd a bydd pob aelod annibynnol yn cael copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

11 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac eithrio balans y stocrestr ar 31 Mawrth 2020. Felly, cyhoeddais farn amodol cwmpas cyfyngedig ar y cyfrifon.

12 Roedd angen yr amod hwn oherwydd nad oeddwn wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i gefnogi balans stocrestr perthnasol y Bwrdd Iechyd o £16.784 miliwn ar 31 Mawrth 2020. Hoffwn dynnu sylw at y ffaith na chododd yr amod oherwydd diffygion yng ngweithredoedd na systemau'r Bwrdd Iechyd, ond oherwydd bod cyfyngiadau symud COVID-19 y DU wedi atal fy nhîm archwilio rhag ymgymryd â'u gwaith o gyfrif y stocrestr ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n weithdrefn archwilio orfodol ar gyfer balans stocrestr perthnasol. Hoffwn dynnu sylw hefyd at y ffaith nad oeddwn o'r farn bod balans y stocrestr wedi ei gam-ddatgan yn sylweddol, ond yn hytrach na allwn gadarnhau a oedd yn berthnasol wir a theg.

13 Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i fy archwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraffau Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad archwilio i dynnu sylw at ddau ddatgeliad yn y cyfrifon sy'n ymwneud ag:

- effaith COVID-19 ar brisio tir ac adeiladau y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2020; ac

- effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG a wynebwyd gan gyrff GIG Cymru mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2019-20.

14 Deuthum hefyd â thri mater pwysig i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Roedd y materion, a fy argymhellion archwilio, yn ymwneud â rhai o brosesau cyfrifyddu a chofnodion sylfaenol y Bwrdd Iechyd.

15 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac er nad oedd ganddo unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu na ddefnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd, cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Ochr yn ochr â fy marn archwilio, rhoddais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i gyflawni cydbwysedd ariannol.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

16 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yr Awdurdod wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- bu rheolaeth weithredol dda a gwnaed penderfyniadau hyblyg yn ystod y pandemig er gwaethaf rhai cyfyngiadau o ran tryloywder gwaith craffu, sicrwydd a goruchwyliaeth y drefn lywodraethu gyffredinol.
- cynhaliwyd rheolaethau ariannol ,gwaith monitro ac adrodd effeithiol drwy gydol y pandemig, ond mae effaith COVID-19 yn creu risg sylweddol i allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon.
- mae cynlluniau gweithredol wedi eu llywio gan fodelu data cadarn ac maent wedi'u datblygu mewn modd amserol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid yn llawnach wrth gynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau os bydd ail don COVID-19, ac mae angen cryfhau'r trefniadau i fonitro cyflawniad y cynllun.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael ag atal twyll, mae ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.

17 Ystyrir y canfyddiadau hyn yn fanylach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

18 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20. Y datganiadau hyn yw sut y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ran dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus..

19 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Mae **Arddangosyn 6** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw yn rhan o'r archwiliad.

20 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2019-20

21 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac eithrio balans y stocrestr ar 31 Mawrth 2020. Felly, cyhoeddais farn amodol cwmpas cyfyngedig ar y cyfrifon. Wrth wneud hynny, pwysleisiais nad oherwydd diffygion yn systemau neu weithredoedd y Bwrdd Iechyd y gwnaed yr amod, ond oherwydd effaith COVID-19 ar un o fy ngweithdrefnau archwilio gorfodol. Felly, adroddais nad oeddwn o'r farn bod balans y stocrestr wedi'i gamddatgan yn sylweddol, ond yn hytrach na wyddwn a oedd yn berthnasol wir a theg.

22 Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i fy archwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraffau Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddau ddatgeliad yn y cyfrifon sy'n ymwneud â'r canlynol:

- roedd y datgeliad cyntaf yn ymwneud ag effaith pandemig COVID-19 ar y broses o brisio tir ac adeiladau ar 31 Mawrth 2020. O ganlyniad i COVID-19, ac yn unol â chanllawiau penodol a gyhoeddwyd gan ei sefydliad proffesiynol, datganodd prisiwr y Bwrdd Iechyd 'ansicrwydd prisio perthnasol' mewn pedwar o'i adroddiadau prisio proffesiynol, gyda chyfanswm y prisiad yn £65 miliwn. Roedd y pedwar adroddiad prisio wedi'u dyddio 31 Mawrth 2020. Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiadau prisio hyn i lywio'r gwaith o brisio rhai o'i asedau eiddo yn y datganiadau ariannol ar y dyddiad hwnnw.
- roedd yr ail ddatgeliad yn ymwneud ag effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn 2019, a oedd yn ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG a

ysgwyddwyd gan gyrff GIG Cymru mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r trefniant hwn yn golygu y gallai clinigwyr sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sy'n wynebu tâl treth ar dwf eu buddion pensiwn y GIG o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, ddewis talu'r ffi hon drwy Gynllun Pensiwn y GIG, gyda gostyngiad i'w pensiwn pan fyddant yn ymddeol. Bydd y Bwrdd Iechyd wedyn yn talu swm cyfatebol i'r clinigwr pan fydd yn ymddeol, gan sicrhau y caiff ei ddigolledu'n llawn am effaith y didyniad. Caiff y cynllun hwn ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw gost net i'r Bwrdd Iechyd.

23 Deuthum â thri mater pwysig i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio, a grynhoir isod:

- gwendidau mewn rhai o brosesau cyfrifyddu'r Bwrdd Iechyd, a rhai cofnodion cyfrifyddu sylfaenol yn cynnwys cymhlethdod diangen ac yn cael eu cadw y tu allan i'r cyfriflyfr ariannol;
- gwendidau mewn rhywfaint o dystiolaeth archwilio'r Bwrdd Iechyd, a oedd hefyd yn cynnwys cymhlethdod diangen ac yn anodd iawn ei harchwilio; a
- chais cynamserol a derbyniad y datganiadau partïon cysylltiedig 2019-20 wedi'u llofnodi gan aelodau annibynnol ac uwch swyddogion y Bwrdd Iechyd.

24 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Adroddiad Atebolrwydd drafft a'i Ddatganiadau Ariannol erbyn terfyn amser Llywodraeth Cymru ar 22 Mai, ac roedd fy archwiliad a fy ardystiad yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru hefyd.

25 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Adroddodd fy nhîm archwilio ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio y Bwrdd Iechyd a'i Fwrdd ar 29 Mehefin 2020. Ceir crynodeb o'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw **yn Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Roedd un camddatganiad nas cywirwyd mewn cysylltiad â thriniaeth gyfrifyddu'r Bwrdd Iechyd o ran balansau ei gyllidebau cyfun ar 31 Mawrth 2019 a 2020. Roedd y balansau yr effeithiwyd arnynt gan y camddatganiad yn sylweddol ond nid yn berthnasol, ac felly nid oedd y methiant i gywiro hyn yn effeithio ar fy marn archwilio ar y cyfrifon. |

| Mater | Sylwadau’r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau a gywirwyd | Adroddais y pum camddatganiad mwyaf arwyddocaol a gywirwyd. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â dosbarthiadau cyfrifyddu a datgeliadau. Roedd dau o’r cywiriadau’n ymwneud â’r Bwrdd Iechyd yn derbyn gwybodaeth fwy diweddar nad oedd ganddo pan fu’n paratoi’r cyfrifon drafft i gael eu harchwilio. |
| Materion arwyddocaol eraill | Ni chododd unrhyw faterion arwyddocaol eraill yn ychwanegol at y materion a amlygwyd eisoes yn yr adroddiad hwn mewn cysylltiad â fy marn amodol a fy adroddiad pwyslais ar fater. |

26 Cynhaliais, hefyd, adolygiad o ddatganiad o gyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i’r casgliad bod gwybodaeth gadarnhau y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2020 a pharatowyd y datganiad yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.

27 Mae fy archwiliad ar wahân o Gyfrif Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd yn parhau ar hyn o bryd. Rwyf wedi trefnu i adrodd fy nghanfyddiadau i’r ymddiriedolwyr ar 28 Ionawr 2021 ac, os caiff y cyfrif ei gymeradwyo a’i lofnodi, i'w ardystio ar 29 Ionawr.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

28 Methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni cydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ac felly cyhoeddais farn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 y Bwrdd Iechyd.

29 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â’r awdurdodau sy’n eu rheoli nhw. Mae’n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn yr incwm ac i wario’r arian. Mae ein gwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn cynnal profion i sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i’w derbyn na’u hysgwyddo.

30 Pan nad yw’r Bwrdd Iechyd yn cyflawni cydbwysedd ariannol, mae ei wariant yn fwy na’i bwerau i wario ac felly mae’n rhaid i mi roi amod ar fy marn ar reoleidd-dra. Mae **Arddangosion 2 a 3** yn dangos er bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniad o adnoddau cyfalaf, ei fod wedi methu â bodloni ei ddyraniad o adnoddau refeniw.

**Arddangosyn 2: perfformiad ariannol o'i gymharu â'r dyraniad adnoddau refeniw (£'000)**

| | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau gweithredu | 899,060 | 945,419 | 1,025,612 | 2,870,091 |
| Dyraniad adnoddau refeniw | 872,207 | 935,547 | 1,025,670 | 2,833,424 |
| Tanwariant (dros) o'i gymharu â'r dyraniad | (26,853) | (9,872) | 58 | (36,667) |

**Arddangosyn 3: perfformiad ariannol o'i gymharu â'r dyraniad adnoddau cyfalaf (£'000)**

| | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau cyfalaf | 47,033 | 48,413 | 58,070 | 153,516 |
| Dyraniad adnoddau cyfalaf | 47,121 | 48,487 | 58,159 | 153,767 |
| Tanwariant (dros) o'i gymharu â'r dyraniad | 88 | 74 | 89 | 251 |

Ffynhonnell: Datganiadau ariannol 2019-20

31 Mae gen i'r pŵer i gyflwyno adroddiad sylweddol ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ynghyd â fy marn pan fyddaf i'n dymuno tynnu sylw at faterion. Oherwydd methiant y Bwrdd Iechyd i fodloni ei ddyletswyddau ariannol, ochr yn ochr â fy marn archwilio, cyhoeddais adroddiad sylweddol yn nodi'r manylion ffeithiol, sef bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd i sicrhau cydbwysedd ariannol (fel y nodir uchod).

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

32 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi gwneud amryw o waith archwilio perfformiad y

Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau atal twyll y Bwrdd Iechyd.

33 Nodir fy nghasgliadau ar sail y gwaith hwn isod.

## Asesiad strwythuredig

34 Cynlluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Fe wnes i sicrhau dull addas o bragmatig a pherthnasol i fy helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Prif bwyslais y gwaith oedd y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol pan fu'r rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheoli ariannol, yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol.

35 Grwpiodd yr asesiad strwythuredig ein canfyddiadau o dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: cydbwyso'r gwaith o gefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

### Trefniadau llywodraethu

36 Ystyriodd fy ngwaith allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan orfod ymateb yn sydyn i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig. Canfu fy ngwaith y bu rheolaeth weithredol dda ac y gwnaed penderfyniadau hyblyg yn ystod y pandemig er gwaethaf rhai cyfyngiadau o ran tryloywder gwaith craffu, sicrwydd a goruchwyliaeth y drefn lywodraethu gyffredinol.

37 Addasodd y Bwrdd Iechyd ei drefniadau llywodraethu yn gyflym i gefnogi penderfyniadau hyblyg a chyflym ac i sicrhau rheolaeth weithredol effeithiol yn ystod y pandemig. Cymerwyd camau rhesymol i gynnal busnes y Bwrdd mewn ffordd agored. Fodd bynnag, roedd lle i adrodd i'r cyhoedd yn fanylach yn ystod y pandemig, ac i dreulio mwy o amser ar graffu a sicrwydd materion perthnasol, yn arbennig ym meysydd ansawdd, diogelwch a'r gweithlu.

38 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd ganlyn cyfleoedd i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a chadernid ar draws ei fframwaith o Aelodau Annibynnol yn llawn, er enghraifft trwy annog yn weithredol aelodau pwyllgorau a ddiddymwyd i gymryd rhan mewn pwyllgorau eraill yn ystod y cyfnod. At hyn, roedd lle i'r Bwrdd Iechyd wneud gwell defnydd o Hyrwyddwyr y Bwrdd i gefnogi ei ymateb i'r pandemig.

39 Roedd cyfathrebu â staff, y cyhoedd a phartneriaid yn ystod y pandemig yn effeithiol.

40 Mae rhaglen ddysgu wedi ei chychwyn, er nad yw'r Bwrdd wedi myfyrio eto ar ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y pandemig.

## Rheoli adnoddau ariannol

41 Ystyriais berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Canfûm y cynhaliwyd rheolaethau ariannol, a gwaith monitro ac adrodd effeithiol drwy gydol y pandemig, ond mae effaith COVID-19 yn creu risg sylweddol i allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyfriflen.

42 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar gyfer 2019-20. Ond, gyda diffyg cronnus o oddeutu £37 miliwn ar gyfer y cyfnod 2017-2020, methodd y Bwrdd Iechyd â bodloni ei ddyletswydd statudol i fantoli ei gyfriflen tair blynedd neu well. Mae gan y Bwrdd Iechyd fwriadau clir i fantoli'r gyfriflen dros y tair blynedd nesaf. Ar yr adeg pryd y buom yn ymgymryd â'n gwaith asesu strwythuredig, roedd sefyllfa o ddiffyg sylweddol yn debygol ar ddiwedd blwyddyn 2020-21 o ganlyniad i COVID-19, oni fyddo'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau cyllid ychwanegol. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru ac erbyn hyn mae'n rhagweld sefyllfa o fantoli'r gyfriflen ar gyfer y flwyddyn.

43 Cynhaliwyd rheolaethau ariannol, monitro ac adrodd effeithiol yn ystod y pandemig. Rhoddwyd trefniadau ar waith hefyd i olrhain gwariant COVID-19 yn glir, ac eto mae lle i'r monitro a'r adrodd fod yn fwyfwy tryloyw.

## Cynllunio Gweithredol

44 Ystyriodd fy ngwaith gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 a darparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, canolbwyntiwyd ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol i wneud hynny. Canfu fy ngwaith fod cynlluniau gweithredol wedi'u llywio gan fodelu data cadarn ac wedi'u datblygu mewn modd amserol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid yn llawnach wrth gynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau os bydd ail don COVID-19, ac mae angen cryfhau'r trefniadau i fonitro cyflawniad y cynllun.

45 Mae cynlluniau chwarterol y Bwrdd Iechyd wedi eu llywio gan fodelu data cadarn a'u datblygu mewn modd amserol, er ag ymgysylltiad cyfyngedig â rhanddeiliaid. Ystyriodd Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd gynlluniau chwarter un a dau cyn eu cyflwyno, ac fe'u cymeradwywyd yn ôl-weithredol gan y Bwrdd.

46 Ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni amcanion cynllunio chwarter un. Fodd bynnag, mae parhau i ddefnyddio un ysbyty annibynnol neilltuedig yn ddibyniaeth allweddol wrth

gyflawni'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer chwarter dau, ac mae risgiau'n parhau pe byddai ail don COVID-19.

47 Bu prosesau symlach ar waith i adrodd perfformiad i'r Bwrdd yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, wrth i fesurau rheoli perfformiad ddechrau cael eu hailgyflwyno, mae angen datblygu trefniadau adrodd a chraffu y Bwrdd o ran cyflawni'r cynlluniau gweithredol.

## Effeithiolrwydd y trefniadau atal twyll

48 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn disgrifio trefniadau atal twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yna, cynhaliodd fy nhîm archwiliad manylach ar draws ystod o gyrff yn sector cyhoeddus Cymru er mwyn archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddais Gwella Ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru sy'n nodi crynodeb o fy nghanfyddiadau a saith 'thema allweddol' y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

49 Er na chafodd y gwaith hwn ei gynnwys yng nghynllun archwilio'r Bwrdd Iechyd, cyhoeddais adroddiad ychwanegol hefyd yn nodi trefniadau penodol y Bwrdd Iechyd ar gyfer atal a chanfod twyll. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, bod ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal a chanfod twyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2020.

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2020 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2020 |
| Atodiad yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon | Awst 2020 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2020 | Hydref 2020 |
| Effeithiolrwydd y trefniadau atal twyll | Awst 2020 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2020 | Chwefror 2020 |

**Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda brasamcan o'r dyddiadau ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| **Adroddiad** | **Brasamcan o'r dyddiad cwblhau** |
|---|---|
| Orthopedeg | Ionawr 2021 |
| Adolygiad o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Chwefror 2021 |
| Profi, Olrhain a Diogelu | Chwefror 2021 |
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Chwefror 2021<br>Mae rhagor o waith i'w gynnwys yn rhan o gynllun 2021 |
| Gwaith dilynol ar argymhellion blaenorol Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg | Chwefror 2021 |
| Gwaith dilynol ar theatrau llawdriniaeth | Chwefror 2021 |
| Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Ebrill 2021 |
| Gwaith dilynol ar wasanaethau radioleg | Ebrill 2021 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2020 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £390,652 (heb gynnwys TAW). Dylwn allu cadarnhau fy ffi wirioneddol a godir arnoch ym mis Chwefror 2021, pan fyddaf wedi archwilio ac ardystio Cyfrif Cronfeydd Elusennol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Disgwylir i Aelodau'r Ymddiriedolwyr ystyried y cyfrifon archwiliedig a fy adroddiad archwilio ar 28 Ionawr 2021, ac mae fy ardystiad wedi ei drefnu ar gyfer 29 Ionawr. Byddaf yn adrodd fy ffi wirioneddol i'r Pwyllgor Archwilio yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2021.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 6: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gwrthwneud hyn, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd;<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol;<br>• ychwanegu gweithdrefnau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o wrthwneud gan y rheolwyr nad yw'r gwaith gorfodol uchod wedi mynd i'r afael â nhw. | Adolygais nifer o'r amcangyfrifon cyfrifyddu a sampl o drafodiadau a oedd yn cynnwys cofnodion mewn cyfnodolion. Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, peidiodd y byrddau iechyd â chael terfynau adnoddau blynyddol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Yn hytrach, gwnaethant symud i derfyn adnoddau treigl o dair blynedd ar gyfer refeniw a gwariant cyfalaf net, gyda'r cyfnod tair blynedd cyntaf yn dod i ben 31 Mawrth 2017.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w derfyn refeniw treigl tair blynedd ar gyfer 2016-17,<br>2017-18 a 2018-19, ac felly, rhoddais amod ar fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y blynyddoedd hynny.<br>Ar gyfer 2019-20, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl mantoli'r gyfriflen, serch hynny, byddai hyn yn arwain at ddiffyg cronnus o £36.7 miliwn ar gyfer y tair blynedd sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020. | Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20 a'r sefyllfa gronnus ar gyfer y tair blynedd sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020.<br>Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried hefyd effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol nas cywirwyd yn ystod y tair blynedd hynny.<br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni terfynau adnoddau tair blynedd o ran refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl rhoi amod ar fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2019-20. Fel y gwnaed ar gyfer blynyddoedd blaenorol, byddwn yn disgwyl cyflwyno adroddiad sylweddol ar y datganiadau er mwyn esbonio sail yr amod ac o dan ba amgylchiadau yr oedd wedi codi. | Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyraniad cyfalaf tair blynedd, ond wedi methu o ran ei ddyraniad refeniw.<br>Felly, rhoddais amod ar fy marn ar reoleidd-dra ac eglurais hyn yn fy adroddiad sylweddol cysylltiedig. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Rwyf i'n archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, megis taliadau cydnabyddiaeth yr uwch swyddogion a'r aelodau annibynnol, hyd at lefel perthnasedd lawer is oherwydd eu sensitifrwydd.<br>Felly mae'n hanfodol bod y datgeliadau hyn yn fwy tueddol i gael eu cam-ddatgan yn berthnasol. Mewn archwiliadau y gorffennol agos, rwyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn fy adroddiad cydnabyddiaeth a gyflwynwyd ar gyfer fy archwiliad, a gywirwyd wedyn gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r camddatganiadau hyn o'r gorffennol yn golygu fy mod o'r farn bod datgeliadau 2019-20 mewn perygl o gael eu camddatgan ymhellach. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r holl gofnodion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth er mwyn cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi adlewyrchu'r holl newidiadau hysbys i swyddi uwch, a bod y datgeliadau'n gyflawn ac yn gywir. | Profais yr Adroddiad Cydnabyddiaeth yn sylweddol fel y bwriadwyd. Roedd canlyniadau fy archwiliad yn foddhaol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Rwyf hefyd yn archwilio datgeliadau partïon cysylltiedig y Bwrdd Iechyd i berthnasedd llawer is. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi adrodd am wendidau yn nhrefniadau partïon cysylltiedig y Bwrdd Iechyd, a arweiniodd at gamddatgan perthnasol yn y cyfrifon drafft. O ganlyniad i ganfyddiadau fy ngwaith archwilio, gwnaeth y Bwrdd Iechyd waith adfer, a chywirodd ei ddatgeliadau partïon cysylltiedig, cyn fy ardystiad.<br>Mae'r camddatganiadau hyn yn y gorffennol yn golygu fy mod o'r farn bod datgeliadau mewn perygl o gael eu camddatgan ymhellach yn 2019-20. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu ac yn profi cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau partïon cysylltiedig. | Profais bartïon cysylltiedig yn sylweddol ac roedd canlyniadau'r archwiliad yn foddhaol.<br>Fodd bynnag, adroddais am wendidau ym mhrosesau'r Bwrdd Iechyd ac argymhellais welliant, a dderbyniwyd gan y rheolwyr. |
| Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gyfarwyddyd Gweinidogol ffurfiol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithredu menter 'cynllun talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth bensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol. | Rydym yn ystyried triniaeth gyfrifyddu a goblygiadau archwilio'r cyfarwyddyd (y cyntaf yng Nghymru ers 1999) ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n mynd i'r afael â'r un mater yn GIG Lloegr ar hyn o bryd. | Profais y rheoleidd-dra a'r cyfrifyddu ar gyfer y Cyfarwyddyd hwn. Roedd canlyniadau fy archwiliad yn foddhaol, er fy mod, fel y nodir yn yr adroddiad hwn, wedi cynnwys naratif 'pwyslais ar fater' yn fy nhystysgrif archwilio. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Ar gyfer 2019-20, ceir cynnydd o 6.3% (i 20.3%) yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr, sy'n gost ychwanegol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Rydym ar ddeall y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo cost y cynnydd hwn yn 2019-20. | Bydd fy nhîm archwilio yn profi'r costau ychwanegol hyn er mwyn cadarnhau a yw'r Bwrdd Iechyd wedi datgelu a rhoi cyfrif amdanynt yn gywir. | Profais y mater hwn yn sylweddol, gyda chasgliad archwilio boddhaol. |
| Gallai Cyflwyno ' Lesoedd Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16' yn 2020-21 beri risgiau gweithredu os nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da â'i waith paratoi hyd yma. | Bydd fy nhîm yn gwneud rhywfaint o waith cynnar er mwyn adolygu'r parodrwydd ar gyfer cyflwyno Lesoedd Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16. | Gohiriwyd cyflwyniad y safon gyfrifyddu hon ar gyfer cyrff cyhoeddus tan 2021-22, felly gohiriais fy adolygiad. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.